



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rheoliadau Adeiladu (Cymru)

Cylchlythyr

| | | | |
|--|--|---|----------------|
| Rhif y Cylchlythyr: | WG 016/2017 | Dyddiad cyhoeddi: | 01 / 12 / 2017 |
| Statws: | Er gwybodaeth | | |
| Teitl: | Cymeradwyo Yswiriant Arolygydd Cymeradwy - Lockton Companies LLP | | |
| Cyhoeddwyd gan: | | | |
| François Samuel: Pennaeth Rheoliadau Adeiladu | | | |
| Cyfeiriwyd at: | | Anfonwch ymlaen at: | |
| Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Cymdeithas Arolygwyr Cymeradwy Corfforaethol Cyngor y Diwydiant Adeiladu Fforwm Personau Cymwys | | Swyddogion Rheoli Adeiladu'r Awdurdodau Lleol Aelodau'r Cynulliad | |
| Crynodeb: | | | |
| Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu bod Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo'r polisi yswiriant indemniad proffesiynol a'r polisi yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a gynigir gan Lockton Companies LLP, a fydd yn ychwanegol at y polisiau yswiriant cymeradwy sydd eisoes yn cael eu cynnig gan yswirwyr ar gyfer arolygwyr yng Nghymru. | | | |
| I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â: | | | |
| Colin Blick Rheoliadau Adeiladu Swyddfeydd Llywodraeth Cymru Merthyr Tudful | | Llinell Uniongyrchol: 03000 628144 E-bost: enquiries.brconstruction@llyw.cymru Gwefan: http://gov.wales/topics/planning/buildingregs/?skip=1&lang=cy | |

DEDDF ADEILADU 1984

Cynlluniau Yswiriant ar gyfer Arolygwyr Cymeradwy yn unol ag adran 47(6) o Ddeddf Adeiladu 1984

CYFLWYNIAD

1. Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu bod Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo'r polisi yswiriant indemniad proffesiynol a'r polisi yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a gynigir gan Lockton Companies LLP (Lockton), a fydd yn ychwanegol at y cynlluniau yswiriant cymeradwy sydd eisoes yn cael eu cynnig gan yswirwyr ar gyfer arolygwyr cymeradwy yng Nghymru. Bydd y gymeradwyaeth yn dod i rym ar 1 Rhagfyr 2017 ac yn parhau nes y bydd Gweinidogion Cymru'n dod â hi i ben.

CYMERADWYAETH NEWYDD

2. Er mwyn ennill cymeradwyaeth mae'n rhaid i gynlluniau yswiriant gydymffurfio â chyfres o feini prawf. Mae Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo, o dan adran 47(6) o Ddeddf Adeiladu 1984, gynllun Lockton fel cynllun sy'n bodloni'r meini prawf. Ceir copi o'r hysbysiad cymeradwyo ar wefan Llywodraeth Cymru: <http://cymru.gov.uk/topics/planning/buildingregs/?lang=cy>:

Nodir manylion cyswllt Lockton yn **Atodiad A**.

CYMHWYSO CYNLLUN YSWIRIANT

3. Mae'r gymeradwyaeth yn berthnasol i waith adeiladu yng Nghymru, ond nid gwaith adeiladu ar adeiladau ynni a eithrir¹ yng Nghymru neu adeiladau'r Goron neu ymgwymerwyr statudol yng Nghymru, a ddaw o dan hysbysiadau cychwynnol a roddwyd o dan adran 47(1) o Ddeddf Adeiladu 1984 gan arolygwyr a gymeradwywyd o dan adran 49 o Ddeddf Adeiladu 1984 a rheoliadau 4 a 5 o Reoliadau Adeiladu 2010 (Arolygwyr Cymeradwy etc).

CYNLLUNIAU YSWIRIANT CYMERADWY ERAILL AR GYFER AROLYGWYR CYMERADWY

4. Ar hyn o bryd ceir tri chynllun yswiriant cymeradwy ar gyfer arolygwyr cymeradwy: NHBC (Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai) sy'n yswirio ei arolygwyr ei hunan yn unig, a Griffiths and Armour a Howden Limited, sy'n cynnig yswiriant i bob arolygwr cymeradwy yn y farchnad agored.

¹ Fel y'u diffinnir gan yr Atodlen i Orchmyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009 (O.S. 2009/3019).

YMHOLIADAU

5. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y Cylchlythyr hwn, dylech eu cyfeirio at:

Colin Blick
Rheoliadau Adeiladu
Llywodraeth Cymru
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful CF48 1UZ.

Rhif Ffôn: 03000 628144

Ebost Colin.Blick@llyw.cymru

Yn gywir

A handwritten signature in cursive script, appearing to read 'François Samuel'.

François Samuel
Pennaeth Rheoliadau Adeiladu

Atodiad A

**Manylion darparwr yswiriant ar gyfer arolygwyr sy'n gymeradwy o dan A. 47(6)
o Ddeddf Adeiladu 1984**

| Enw a Chyfeiriad | Rhif Ffôn/e-bost | Daw'r gymeradwyaeth i rym ar |
|--|-----------------------------|-------------------------------------|
| Lockton Companies LLP (Lockton), The St Botolph Building 138 Houndsditch London EC3A 7AG | Rhif Ffôn: 020 7933 2195 | 1 Rhagfyr 2017 |